



**Ombwdsmon
Ombudsman**

Cymru • Wales

Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun

Meini Prawf ar gyfer Ymchwiliad



Ymchwiliad Ehangach

1. Dylai fod tystiolaeth ddigonol ar gael er mwyn dangos yr angen i gychwyn ymchwiliad ehangach 'ar ei liwt ei hun'.
2. Gall tystiolaeth:
 - Awgrymu y bu camweinyddiaeth systemig/methiant yn y gwasanaeth
 - Dangos bod camweinyddu systemig/methiant yn y gwasanaeth yn bodoli
 - Dangos bod potensial ar gyfer camweinyddu systemig / methiant yn y gwasanaeth
 - Awgrymu y gall y camweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth a nodwyd fod yn fwy eang a systemig.
3. Gall y dystiolaeth fod oddi wrth:
 - Yr achwynydd a/neu'r corff y cwynir amdano
 - Cofnodion cwynion yr Ombwdsmon
 - Tyst/tystion
 - Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, sefydliadau'r trydydd sector a thrydydd parti arall
4. Mae'r dystiolaeth yn cael ei hasesu er mwyn sefydlu a yw'r meini prawf i gychwyn ymchwiliad yn cael eu cwrdd, gan gynnwys:
 - a yw'r mater o fudd i'r cyhoedd
 - a oes amheuaeth rhesymol bod camweinyddu
 - systemig a all achosi unrhyw unigolyn i brofi anghyfiawnder neu galedi
 - a yw'r pryderon a nodwyd yn rhai a fyddai'n effeithio ar grwpiau eang o ddinasyddion neu unigolion, yn arbennig felly os ydyn nhw yn fregus neu wedi cael eu hanfanteisio efallai (er enghraifft, unigolyn neu grŵp o unigolion a fyddai'n cael anhawster i wneud cwyn) ac sy'n ymddangos yn debygol o brofi anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater sy'n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad.
 - grym y dystiolaeth
 - grym perswâd y dystiolaeth

5. Os ydym yn ystyried bod y meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd ymarfer ymgynghorol er mwyn ceisio cael barn ynglyn â gwerth ymchwilio, neu a yw sefydliadau eraill mewn sefyllfa well i ymchwilio.

Ymchwiliad Estynedig

6. Pan rydym eisoes wedi dechrau ymchwiliad i gŵyn a rydym yn dymuno dechrau ymchwiliad ar ein liwt ein hunain ynglŷn â materion sydd â chysylltiad sylweddol â'r mater sydd eisoes yn cael ei ymchwilio, byddwn yn dechrau ymchwiliad estynedig ar ein liwt ein hunain.

7. Gellir cynnal ymchwiliad estynedig lle mae cwyn ynglŷn ag:

- un elfen o wasanaeth, a/neu
- ynglŷn ag un darparwr gwasanaeth

yn gysylltiedig yn agos â

- digwyddiad posibl arall o fethiant yn y gwasanaeth, a / neu
- darparwr gwasanaeth arall sy'n gysylltiedig.

8. Os yw'r meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd darparwr/darparwyr y gwasanaeth a'r achwynydd yn cael eu hysbysu ynglyn â'r penderfyniad i ymestyn yr ymchwiliad. Bydd y partïon sydd ynghlwm yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau a thystiolaeth fel rhan o'r broses ymchwilio. Os yw'r ymchwiliad estynedig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd, bydd yr achwynydd yn cael y cyfle i symud y mater ymlaen o dan reoliadau 'Gweithio i Wella' fel dewis amgen, os ydyn nhw'n dymuno hynny.





Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)